Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

Ysgol Pencae
Heol Gillian
Highfields
Pencae
Caerdydd
CF5 2QA

Rhif yr ysgol: 6812177

Dyddiad yr arolygiad: 5 Hydref 2009

gan

Luned Eleri Betts
17717

Dyddiad cyhoeddi: 7 Rhagfyr 2009

O dan rif contract Estyn: 1107309

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Pencae fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Pencae rhwng Hydref 5ed a 6ed 2009, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Luned Eleri Betts. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun		**1**
Crynodeb		**2**
Argymhellion		**7**
Safonau		8
Cwestiwn Allweddol 1:	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	8
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant		**10**
Cwestiwn Allweddol 2:	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	10
Cwestiwn Allweddol 3:	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	12
Cwestiwn Allweddol 4:	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	15
Arweinyddiaeth a rheolaeth		**16**
Cwestiwn Allweddol 5:	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	17
Cwestiwn Allweddol 6:	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	18
Cwestiwn Allweddol 7:	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	19
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad		**21**
Atodiadau		22
1	Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	22
2	Data a dangosyddion ysgol	22
3	Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	23
4	Sail dystiolaeth yr arolygiad	25
5	Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	25

Cyd-destun

Natur y darparwr

1 Lleolir Ysgol Gynradd Gymraeg Pencae yn Llandaf yn ninas Caerdydd, ac fe'i rheolir gan Awdurdod Lleol (ALl) y ddinas honno. Sefydlwyd yr ysgol yn yr adeilad presennol yn 1991. Cyflwynir yr addysg yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

2 Dau gant a saith o ddysgwyr sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Maent wedi eu rhannu i saith dosbarth, un ohonynt yn cynnwys 30 plentyn dan bump o oed derbyn. Mae nifer o feithrinfeydd yn trosglwyddo plant i'r ysgol ar gyfer y dosbarth derbyn gan nad oes darpariaeth feithrin yn yr ysgol. Ers Medi 2009 felly, mae'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei weithredu'n statudol.

3 Cyflogir wyth o athrawon gan gynnwys y pennaeth yn ogystal ag athrawes ran amser. Yn ystod yr arolygiad roedd athrawes newydd gymhwyso (ANG) yn cyflenwi dros athrawes ar gyfnod mamolaeth.

4 Daw tua 75% o'r dysgwyr o ddalgylch preswyl a ystyrir yn freintiedig ac mae'r 25% sy'n weddill yn dod o gefndiroedd nad ydynt yn ffyniannus nac o dan anfantais economaidd. Mae tua 3.4% wedi eu cofrestru fel rhai â hawl i brydau bwyd am ddim, ffigwr sy'n llawer is na'r canrannau lleol a chenedlaethol.

5 Cynrychiola'r dysgwyr yr ystod gallu llawn. Daw tua 33% ohonynt o gartrefi lle siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Mae tua 15 (7.5%) ar y gofrestr anghenion addysg arbennig (AAA); mae gan un ddatganiad. Mae'r ganran hon yn is na'r ffigyrau lleol a chenedlaethol. Ni ddatgymhwysir y cwricwlwm cenedlaethol (CC) ar gyfer neb. Daw tua 5% o gefndiroedd lleiafrifol ethnig. Nid oes yr un dysgwr yng ngofal yr ALl ac ni waharddwyd yr un yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

6 Mae canrannau presenoldeb yr ysgol am y flwyddyn ddiwethaf yn 95.3% sydd yn uwch na chyfartaleddau Caerdydd a Chymru ac ychydig yn uwch na'r targed cenedlaethol.

7 Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2003. Dyrchafwyd dirprwy'r ysgol i swydd y pennaeth ym Medi 2008. Derbyniwyd Marc Safon gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn Nhachwedd 2006 a chyflwynwyd trydedd wobr Marc Ansawdd i'r ysgol ym Mehefin 2007. Llwyddwyd i dderbyn y Faner Werdd fel rhan o fenter Eco-Sgolion yn Ebrill 2009 a derbyniwyd gwobr gyntaf y fenter Ysgol Iach yn Ionawr 2009. Derbyniwyd Gwobr Efydd Ansawdd y Celfyddydau yn ystod wythnos yr arolygiad.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

8 Prif amcan yr ysgol yw darparu cyfle i bob plentyn ddatblygu hyd eithaf ei allu yn feddyliol, yn gorfforol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn esthetig yn ystod ei yrfa yn Ysgol Pencae trwy:

- sefydlu ymwybyddiaeth a balchder yn yr iaith Gymraeg, ei hetifeddiaeth a'i diwylliant;
- datblygu meddyliau bywiog ac ymholiadol gan hybu'r sgiliau a'r gallu i ddysgu, rhesymu, dadansoddi a thrafod yn rhesymegol;

- ceisio sicrhau cwricwlwm cyflawn i bob un yn ôl ei ddawn a'i allu a chynnig cwricwlwm sydd yn gytbwys, yn berthnasol ac yn wahaniaethol;
- addysgu dysgwyr i weithio'n annibynnol a chydag eraill er mwyn dysgu a hyrwyddo sgiliau cymdeithasol fydd yn eu helpu i gydfyw gydag eraill;
- meithrin y gallu i werthfawrogi, rhyfeddu a gofalu am brydferthwch byd natur, mwynhau'r celfyddydau mynegiannol ac ystyried agweddau dyfnach ar fywyd;
- datblygu cyfrifoldeb am yr hunan gan feithrin agweddau iach a gweithredol tuag at y gymuned a'r byd ehangach; a
- chreu awyrgylch o fewn cymuned yr ysgol lle gall staff yr ysgol gyfan, rhieni a llywodraethwyr weithio gyda'i gilydd er mwyn cyflawni'r amcanion a gwireddu'r datganiadau uchod.

9 Blaenoriaethau'r ysgol am eleni yw:

- gweithredu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn statudol yn y dosbarth derbyn;
- datblygu agweddau ar gynllunio'r cwricwlwm fel arfau monitro i gydlynwyr y Cyfnod Sylfaen a chydlynwyr pynciau yng nhyfnod allweddol 2;
- codi safonau bechgyn mewn iaith yng nghyfnod allweddol 1 a safonau merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 2;
- asesu cyflawniadau a chyraeddiadau dysgwyr trwy system fonitro electronig;
- datblygu Cynllun Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd eang (ADCDF);
- anelu at ymgyrraedd â safonau blaengareddau cenedlaethol er mwyn codi a chynnal safonau ac ennill cydnabyddiaeth Ysgolion Iach, Marc Safon y Celfyddydau a derbyn Marc Ansawdd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh);
- gwella ymhellach y diogelwch ar safle'r ysgol; a
- pharhau gyda datblygiad proffesiynol staff.

10 Arwyddair yr ysgol yw 'Ymdrech a Lwydda'.

Crynodeb

11 Mae Ysgol Pencae yn darparu cyfleoedd amrywiol a chyfoethog ar gyfer y dysgwyr. Mae'r safonau yn uchel ac mae cymhelliant y dysgwyr yn nodwedd arbennig o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn arwain y tîm brwdfrydig o oedolion yn rhagorol.

12 Roedd y tîm arolygu yn cytuno gyda'r graddau roddodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu mewn tri chwestiwn allweddol. Mewn tri chwestiwn dyfarnodd y tîm radd uwch na gradd yr ysgol ond dyfarnodd radd is mewn un cwestiwn.

Safonau

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 1
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 1
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 2

13 Mae'r canlyniadau asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson uwch na'r canrannau lleol a chenedlaethol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd pob dysgwr yn asesiadau 2009 wedi cyrraedd Lefel 2 (sef y lefel a ddisgwylir i ddysgwyr sy'n saith oed). Roedd y dangosydd pwnc craidd (DPC), sef y canlyniadau ar draws y tri phwnc, felly hefyd yn uwch na'r canrannau lleol a chenedlaethol. Er bod nifer y dysgwyr a gyflawnodd y lefel uwch (Lefel 3) yn well na'r canrannau lleol a chenedlaethol, roedd rhywfaint yn is na'r blynyddoedd cynt. Mae canlyniadau merched fel rheol yn well na'r bechgyn.

14 O gymharu perfformiad dysgwyr cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg mae perfformiad yr ysgol yn amrywio. Mewn mathemateg mae yn gyson yn yr hanner uchaf, mewn gwyddoniaeth mae yn y trydydd chwarter ac mewn Cymraeg mae'n amrywio, ond fel arfer yn y trydydd chwarter.Mae'r ysgol yn perfformio'n well na'r cyfartaledd yn ei grŵp teulu o ysgolion.

15 Mae nifer y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gyflawnodd Lefel 4 (sef y lefel a ddisgwylir gan ddysgwyr sy'n 11 oed) yn rhagori ar y canrannau cenedlaethol a lleol yn y pedwar pwnc craidd. Mae'r DPC hefyd yn rhagori arnynt. Roedd nifer y dysgwyr gyflawnodd Lefel 5 yn 2009 yn uwch na'r canlyniadau lleol a chenedlaethol yn y Gymraeg a Saesneg ond yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn cynrychioli cwymp ar y blynyddoedd blaenorol. Er bod merched yn perfformio'n well na bechgyn ar gyfartaledd, roedd y bechgyn wedi rhagori ar y merched mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn 2009. O gymharu canlyniadau 2009 â chanlyniadau'r dysgwyr hyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2005, gwelir cynnydd sylweddol mewn gwyddoniaeth.

16 Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill mae cyrhaeddiad y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio yn flynyddol yn dibynnu ar y garfan, ond fel rheol mae yn yr ail chwarter. Yma eto mae'r ysgol yn perfformio'n well na'r cyfartaledd yn ei grŵp teulu o ysgolion.

17 At ei gilydd mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w anghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r asesiad gwaelodlin a wneir ar blant sydd newydd ddechrau yn yr ysgol yn dangos eu bod yn cynrychioli'r ystod gallu llawn.

18 Ar draws y ddau gyfnod allweddol mae dysgwyr yn datblygu medrau rhagorol a defnyddiant y rhain yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae dysgwyr ag AAA yn gwneud cynnydd da ac mae llawer o rai abl a thalentog yn elwa o weithgareddau heriol.

19 Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant y Cyfnod Sylfaen a dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol yn nodwedd ragorol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu yn llafar ac ysgrifenedig, yn trafod rhifau, yn datrys problemau ac yn defnyddio amrywiaeth o sgiliau ac offer TGCh yn hyderus. Mae safonau creadigol yr holl ddysgwyr yn nodwedd ragorol ar draws yr ysgol ac mae eu sgiliau dwyieithog yn ardderchog.

20 Gweithia'r dysgwyr yn gynhyrchiol. Llwyddant yn ôl eu gallu, beth bynnag fo eu cefndir cymdeithasol, ethnig ac ieithyddol; o ganlyniad mae bron pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

21 Mae datblygiad personol a chymdeithasol yn nodwedd ragorol o fywyd y dysgwyr ar draws yr ysgol. Mae hunanddisgyblaeth, cwrteisi a chyfeillgarwch yn nodweddion da iawn o'u hymddygiad. Dengys dysgwyr agweddau iach at amrywiaeth mewn cymdeithas.

22 Mae presenoldeb yn dda iawn. Ar 95.3% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol a thargedau Llywodraeth Cenedlaethol Cymru (LICC). Mae prydlondeb yn gyson dda ar ddechrau'r dydd ac i wersi unigol.

23 Mae paratoad ar gyfer y gweithle, a bod yn ddinasyddion yn y gymuned yn elfen gref o ddatblygiad y dysgwyr.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Graddau ar gyfer addysgu

24 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y sesiynau a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
25%	67%	8%	0%	0%

25 Mae'r canrannau hyn yn uwch na'r canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd ei Mawrhydi (PAEM) ar gyfer 2007-2008, sef bod ansawdd yr addysgu'n Radd 2 neu'n uwch mewn 83% o wersi, ac yn Radd 1 mewn 16% o wersi. Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r canrannau yn yr arolygiad diwethaf.

26 Mae'r athrawon a'r staff cefnogi i gyd yn fodelau rôl ieithyddol ardderchog. Mae trefnusrwydd yr holl ystafelloedd dosbarth yn rhoi negeseuon pwysig i ddisgyblion am barch a hunan-ddisgyblaeth.

27 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys disgwyliadau uchel iawn, cynllunio manwl a holi treiddgar. Mae nodweddion da'r addysgu'n cynnwys perthynas waith dda gyda'r dysgwyr, amcanion eglur i'r gwersi a rheolaeth ddosbarth gadarn ac adeiladol. Yn yr ychydig wersi lle gwelwyd mân ddiffygion ceir ansicrwydd o ran deilliannau gwersi a chyflymder gwersi yn rhy araf.

28 Mae dulliau asesu cynnydd a chyflawniad plant y Cyfnod Sylfaen yn dda, gydag asesu gwaelodlin yn arwain at gynllunio ar gyfer unigolion. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth a dderbynnir o'r saith uned feithrin, er bod y wybodaeth yn amrywio'n fawr o ran manylder.

29 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae athrawon yn asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd. Gosodir targedau heriol ar eu cyfer. Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr drwy'r ysgol ddealltwriaeth dda o ddiben asesu. Ar y cyfan, mae'r adborth a gynigir iddynt yn eu hannog i asesu eu gwaith eu hunain, er nad ydynt, hyd yma, yn chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio a gwella eu gwaith. Mae athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac, at ei gilydd, yn rhoi sylwadau adeiladol, er nad ydynt yn cynnig arweiniad digonol bob amser ar sut i wella'r gwaith. Cydymffurfia adroddiadau blynyddol i rieni yn llawn gyda'r gofynion statudol.

30 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm yn eang, yn gytbwys a pherthnasol ac yn cwrdd yn llawn gyda gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y CC ac addysg grefyddol. Mae hefyd yn rhoi mynediad llawn i ystod gallu a chefndir eang y dysgwyr, gan gynnwys rhai ag AAA.

31 At ei gilydd, mae ansawdd cynllunio a threfniant y cwricwlwm yn nodwedd arbennig. Mae'r ysgol wedi addasu'r cynllunio yn effeithiol i ofynion y cwricwlwm newydd. Mae dilyniant a pharhad yn nysgu unigolion ar draws yr ysgol.

32 Mae dosbarthiadau ieuengaf yr ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer meysydd y Cyfnod Sylfaen. Oherwydd cyfyngderau'r safle a'r angen i wneud newidiadau, nid yw darpariaeth y Cyfnod Sylfaen eto wedi datblygu'n ddigonol gan nad oes digon o sefyllfaoedd chwarae rôl na dewisiadau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

33 Ar gyfer y medrau allweddol a sylfaenol mae'r cynllunio yn nodwedd ragorol ac mae'r ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig hefyd yn rhagorol.

34 Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad personol, moesol, cymdeithasol ac ysbrydol dysgwyr yn gyson dda. Mae ethos a rheolau'r ysgol a'r dosbarth yn gonglfaen i'w datblygiad moesol. Mae cymuned yr ysgol yn anelu'n llwyddiannus at baratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion da ac i sylweddoli bod gan bawb ran i'w chwarae mewn cymdeithas.

35 Ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr, mae darpariaeth at ei gilydd yn dda. Mae profiadau dosbarth yn aml yn rhoi gwefr iddynt. Er bod dathliadau cyson o'u cyflawniadau mewn addoli ar y cyd yn gyfle i ysbrydoli dysgwyr, nid ydynt bob amser yn achlysuron ysbrydol. Mae addoli ar y cyd yn cydymffurfio gyda gofynion statudol.

36 Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn rhagorol. Sefydlir ymwybyddiaeth a balchder ymhob dysgwr o'r diwylliant Cymreig. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau dwyieithog, yn ogystal â dysgu Ffrangeg, yn rhan ddyddiol ac integredig o fywyd yr ysgol.

37 Mae'r ysgol yn cyfoethogi ei darpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal trwy'r sylw a roddir i amrywiol gredoau ac amddifadedd mewn cymdeithas. Caiff y dysgwyr gyfle i edrych ar broblemau ym mywydau cyd-ddinasyddion y byd. Dethlir agweddau positif tuag at gydraddoldeb hiliol.

38 Hyrwyddir datblygiad cynaliadwy yn effeithiol. Rhoddir gofod sylweddol ar waliau'r ysgol i'r Pwyllgor Eco arddangos agweddau o'u gwaith yn annog ailgylchu, arbed ynni a rheoli'r defnydd o ddŵr.

39 Rhydd yr ysgol sylw cyson i ddarparu addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith ac mae sgiliau entrepreneraidd dysgwyr yn datblygu'n dda.

40 Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fydd yn dylanwadu ar ansawdd bywyd y dysgwyr yn y dyfodol ac yn cyfrannu at adferiad cymunedol.

41 Gweithia'r ysgol yn rhagorol gyda'i phartneriaid er mwyn cyfoethogi addysg y dysgwyr. Mae Cymdeithas Rhieni'r ysgol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n helaeth yn ariannol i ategu at adnoddau. Mae'r berthynas gyda'r gymuned leol ac ehangach hefyd yn rhagorol. Ceir cysylltiadau rhagorol gydag ysgolion Cymraeg y clwstwr, yr Ysgol Gyfun Gymraeg lle mae'r dysgwyr yn trosglwyddo, ac ysgolion eraill lleol.

42 Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau gofal yn hynod o effeithiol. Ceir cyswllt arbennig o dda rhwng yr ysgol ag asiantaethau cynnal swyddogol er mwyn sicrhau gofal a lles pob dysgwr, yn enwedig y rhai ag anghenion penodol.

43 At ei gilydd, mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles pob dysgwr yn dda. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at ddau fater yn ymwneud â diogelwch.

44 Caiff dysgwyr ag AAA gynhaliaeth dda gan yr athrawes arbenigol, athrawon dosbarth a chymorthyddion. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar, a gweithredir yn bwrpasol. Mae dysgwyr ag AAA yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol, a chânt fynediad llawn i'r cwricwlwm.

45 Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer dysgwyr mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd. Gwobrwyir a rhoddir clod am ymddygiad da.

. **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

46 Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd clir a systemau ac ethos sy'n sicrhau bod y corff llywodraethol, rhieni, dysgwyr a staff yn gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion a gwireddu datganiad o genhadaeth yr ysgol sef 'Ymdrech a Lwydda'.

47 Caiff yr ysgol ei harwain yn dda iawn. Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gryfder amlwg ac mae'n cynnig arweiniad egniol, ysbrydoledig a chall. Mae ei weledigaeth uchelgeisiol i'r ysgol yn darparu cyfeiriad strategol eglur iawn oddi mewn i ddiwylliant agored cynhaliol. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda iawn gan ddirprwy sydd hefyd yn newydd i'w swydd. Mae'r uwch dîm rheoli yn weithgar ac ymroddgar iawn.

48 Gwna'r cydlynwyr pwnc gyfraniadau pwysig a gwerthfawr i reolaeth strategol yr ysgol.

49 Ar y cyfan bu'r cynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn dda. Er bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle bellach i fonitro'r safonau a'r ddarpariaeth gwricwlaidd, er mwyn cryfhau proses hunan arfarnu'r ysgol, ni fu digon o bwyslais ar y diffyg hwn yn union wedi'r adroddiad diwethaf.

50 Mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn dda gan fod yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes yn flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) a'r adroddiad hunan arfarnu manwl. Ceir blaenoriaethau, targedau a chynlluniau strategol pwrpasol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a throsolwg hir dymor yn y CDY.

51 Dadansoddwyd mewn manylder yr holiaduron a rannwyd rhwng rhieni a staff yn ystod blwyddyn gyntaf y pennaeth yn ei swydd. Mae Cyngor yr Ysgol a'r dysgwyr yn cymryd rhan gynyddol yn y broses hunan arfarnu ac yn cael

cyfleoedd cyson i leisio barn. Nid yw'r broses na'r gweithdrefnau hunan arfarnu fodd bynnag, wedi gwreiddio'n gadarn eto.

52 Mae dadansoddiad yr ysgol o ddata meintiol yn gryfder amlwg. Defnyddir data rhagfynegol yn effeithiol iawn i nodi beth fydd cyraeddiadau dysgwyr wrth iddynt fynd i fyny'r ysgol.

53 Er bod y rhifau yn y dosbarthiadau'n fawr, mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon ar gyfer y dysgwyr. Mae eu cymwysterau yn addas ar gyfer eu dyletswyddau. Mae cyfraniad y gweinyddesau a chymorthyddion dysgu yn hynod werthfawr o fewn y dosbarthiadau ac yn yr ysgol yn gyffredinol.

54 Mae staff gweinyddol yr ysgol, y staff arlwyo, y glanhawyr, y goruchwylwyr canol dydd a'r gofalwr yn ymgymryd â'u gwaith beunyddiol ac ystod o gyfrifoldebau yn effeithiol ac effeithlon.

55 Er bod yr adeilad gwreiddiol yn hen, mae mewn cyflwr da ar y cyfan. Ail-fodelwyd yr adeilad yn ddiweddar ar gyfer datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Gan mai ond ychydig ddyddiau cyn yr arolygiad y bu'n bosibl defnyddio'r rhan newydd nid yw hyd yma wedi dylanwadu'n ddigonol ar y ddarpariaeth. Nid yw'r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd; at ei gilydd mae'n gyfyng ac yn creu anawsterau ar gyfer datblygiad corfforol plant.

56 Ar y cyfan, mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer y dysgwyr a chânt rwydd hynt i'w defnyddio yn bwrpasol. Mae adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael eu datblygu'n effeithiol. Mae holl adnoddau'r ysgol o ansawdd da ac maent yn cael eu parchu gan athrawon a dysgwyr.

57 Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth fanwl am safonau a darpariaeth yr ysgol ac maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson. Mae'r aelodau yn gefnogol ac yn rhagweithiol iawn. Maent yn ddarbodus wrth wario ac yn sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i dargedau'r CDY.

58 Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn symud yr ysgol ymlaen mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1 ddatblygu a mireinio systemau asesu ar draws yr ysgol;

A2 parhau i ddatblygu gweithdrefnau monitro a sefydlwyd yn ddiweddar er mwyn cryfhau'r broses hunan arfarnu, a

A3 datblygu a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn enwedig yn y dosbarth tu allan.

Mae'r holl argymhellion yn flaenoriaethau yn y CDY.

Trafodwyd dau fater iechyd a diogelwch gyda'r staff a'r llywodraethwyr yn ystod yr arolygiad.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

59 Nid yw'r tîm arolygu yn cyd-fynd gyda'r Radd 2 roddodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Barn yr arolygwyr yw bod y safonau ar draws yr ysgol yn rhagorol ac yn haeddu Gradd 1.

60 Mae'r canlyniadau asesu ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn gyson uwch na'r canrannau lleol a chenedlaethol mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Roedd pob disgybl yn asesiadau 2009 wedi cyrraedd Lefel 2. Roedd y DPC felly, hefyd yn uwch na'r canrannau lleol a chenedlaethol. Er bod nifer y dysgwyr a gyflawnodd y lefel uwch (Lefel 3) yn well na'r canrannau lleol a chenedlaethol, roedd rhywfaint yn is na'r blynyddoedd cynt. Mae canlyniadau merched fel rheol yn well na'r bechgyn.

61 O gymharu perfformiad dysgwyr cyfnod allweddol 1 gydag ysgolion tebyg mae perfformiad yr ysgol yn amrywio. Mewn mathemateg mae yn gyson yn yr hanner uchaf, mewn gwyddoniaeth mae yn y trydydd chwarter ac mewn Cymraeg mae'n amrywio, ond fel arfer yn y trydydd chwarter. Mae'r ysgol yn perfformio'n well na'r cyfartaledd yn ei grŵp teulu o ysgolion.

62 Mae nifer y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 gyflawnodd Lefel 4 yn rhagori ar y canrannau cenedlaethol a lleol yn y pedwar pwnc craidd. Mae'r DPC hefyd yn rhagori arnynt. Roedd nifer y dysgwyr gyflawnodd Lefel 5 yn 2009 yn uwch na'r canlyniadau lleol a chenedlaethol yn Gymraeg a Saesneg ond yn is mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae hyn yn cynrychioli cwymp ar y blynyddoedd blaenorol. Er bod merched yn perfformio'n well na bechgyn ar gyfartaledd, roedd y bechgyn wedi rhagori ar y merched mewn gwyddoniaeth a mathemateg yn 2009. O gymharu canlyniadau 2009 â chanlyniadau'r dysgwyr hyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn 2005, gwelir cynnydd sylweddol mewn gwyddoniaeth.

63 Mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill mae cyrhaeddiad y dysgwyr ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn amrywio yn flynyddol yn dibynnu ar y garfan, ond fel rheol mae yn yr ail chwarter. Eto mae'r ysgol yn perfformio'n well na'r cyfartaledd yn ei grŵp teulu o ysgolion.

64 At ei gilydd mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w anghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen.

65 Mae'r asesiad gwaelodlin a wneir ar blant sydd newydd ddechrau yn yr ysgol yn dangos eu bod yn cynrychioli'r ystod gallu lawn. Gan nad oes darpariaeth i blant o oed meithrin mae plant yn mynychu nifer o wahanol leoliadau pan yn dair oed. O ganlyniad mae eu profiadau a'u sgiliau yn gwahaniaethu'n fawr. Yn gyffredinol, mae cyraeddiadau bechgyn wrth ddechrau yn is na merched, heblaw am fathemateg. Fodd bynnag, mae cyraeddiadau'r dysgwyr pan asesir hwy ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn dangos cynnydd a gwerth atodol da iawn.

66 Ar draws y ddau gyfnod allweddol mae dysgwyr yn datblygu medrau rhagorol trwy bynciau penodol a defnyddiant y rhain yn hyderus mewn amrywiaeth o gyd-

destunau. Wrth greu mapiau meddwl ar ddechrau pwnc neu thema, adlewyrchant ar eu gwybodaeth gan gadarnhau eu dealltwriaeth yn llwyddiannus. Mae dysgwyr ag AAA yn gwneud cynnydd da ac mae llawer o ddysgwyr abl a thalentog yn elwa o weithgareddau heriol.

67 Mae sgiliau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant y Cyfnod Sylfaen a dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol yn nodwedd ragorol. Mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth gyfathrebu yn llafar ac ysgrifenedig, ac yn gwneud hynny'n llwyddiannus at nifer o bwrpasau. Ymatebant yn rhagorol ar lafar wrth egluro tasgau ac wrth brofi amrywiaeth o destunau darllen ac ysgrifennu. Darllenant yn hyderus ac ysgrifennant yn estynedig gan gyflwyno eu gwaith mewn llawysgrifen daclus bron bob amser.

68 Mae hyder bron pob dysgwr wrth drafod rhifau a bondiau rhif yn dda iawn ac yn aml mae'n gysylltiedig â'r profiadau wrth ddatrys problemau. Defnyddiant nifer o ddulliau i gofnodi gwybodaeth yn gysylltiedig â chysyniadau rhif.

69 Mae medrau TGCh dysgwyr yn rhagorol. Mae plant y Cyfnod Sylfaen yn hyderus wrth drin rhannau o'r cyfrifiadur ac yn dechrau deall posibiliadau technoleg. Mae dysgwyr ar draws y ddau gyfnod allweddol yn hollol hyderus wrth ymchwilio am wybodaeth o'r rhyngrwyd, defnyddio amrywiaeth o raglenni cyfrifiadurol, camerâu digidol a'r byrddau gwyn rhyngweithiol.

70 Mae safonau creadigol yr holl ddysgwyr yn nodwedd ragorol ar draws yr ysgol. Mae'r rhai ifancaf yn chwarae rôl yn awyddus ac mae rhai hŷn yn hyderus iawn wrth berfformio'n gyhoeddus yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae eu sgiliau cerddorol ym myd canu, dawns a chwarae offerynnau wedi datblygu'n dda iawn ac mae eu sgiliau cyfansoddi yn rhagorol.

71 Mae sgiliau dwyieithog y dysgwyr yn ardderchog. Er nad ydynt yn dechrau'r ysgol tan yn bedair oed mae'r plant o gefndir di-Gymraeg yn gwneud cynnydd ardderchog. Yn y ddau gyfnod allweddol datblyga'r dysgwyr yn gwbl ddwyieithog a medrant gyfathrebu'n ddidrafferth gydag ymwelwyr yn y ddwy iaith. Defnyddiant destunau Saesneg ar ben uchaf yr ysgol gan greu ymatebion Cymraeg yn hyderus, er enghraifft mewn gwersi hanes.

72 Gweithia'r dysgwyr yn gynhyrchiol gan gadw'n gyson o fewn y terfynau amser a nodir; o ganlyniad maent yn caffael gwybodaeth newydd yn rhagorol. Rhannant eu syniadau yn hyderus gyda'u cymheiriaid gan gynyddu eu dealltwriaeth eu hunain ac eraill. Llwyddant yn ôl eu gallu, beth bynnag fo eu cefndir cymdeithasol, ethnig ac ieithyddol; o ganlyniad mae bron pob dysgwr yn cyflawni eu potensial.

73 Mae dysgwyr yn ymwybodol o'u targedau ac yn eu cyflawni yn rheolaidd. Yn aml mae nifer yn cyflawni'n uwch na'r disgwyl oherwydd eu cymhelliant arbennig.

74 Mae ymwybyddiaeth y dysgwyr o nod y wers yn sicrhau fod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn maent yn ei wneud. Mae ganddynt hefyd ymwybyddiaeth dda o sut maent yn perfformio. Llai sicr yw eu hymwybyddiaeth o'r cam nesaf fyddai'n eu cynorthwyo i wella.

75 Mae datblygiad personol a chymdeithasol yn nodwedd ragorol o fywyd y dysgwyr ar draws yr ysgol. Mae'n amlwg eu bod yn amsugno'r holl brofiadau gânt ym myd chwaraeon a chelfyddydau ac yn datblygu'n ddinasyddion cyflawn.

Mae'r cyfrifoldebau niferus sydd gan y disgyblion hŷn yn arbennig, yn sicrhau eu bod yn deall bod gan bawb gyfrifoldebau cymdeithasol.

76 Mae hunan-ddisgyblaeth, cwrteisi a chyfeillgarwch yn nodweddion da iawn o ymddygiad y dysgwyr. Dangosant barch at oedolion ac at ei gilydd. Gwelwyd arfer dda wrth arsylwi ar ddysgwyr hŷn megis y 'Criw Clên' yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau o warchod plant newydd ddechrau o ddifrif.

77 Mae plant y Cyfnod Sylfaen a dysgwyr hŷn yn dangos annibyniaeth yn eu chwarae ac yn eu gwaith. Maent hefyd yn deall beth yw gwaith tîm wrth iddynt weithio'n gyson mewn grwpiau. Mae'r arferion hyn yn nodweddion pwysig ar gyfer eu datblygiad pellach a'u gallu i ddysgu gydol eu hoes.

78 At ei gilydd, dengys y dysgwyr agweddau iach at amrywiaeth mewn cymdeithas. Mae'r rhai ieuengaf yn dechrau sylweddoli bod pobl yn dathlu mewn gwahanol ffyrdd a bod yna lyfrau a lleoedd arbennig sy'n bwysig i gredoau gwahanol. Mae dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn datblygu eu dealltwriaeth o ddefodau a rheolau gwahanol grefyddau, yn edrych ar agweddau gwahanol grefyddau tuag at y byd a natur ac yn datblygu ymwybyddiaeth o sut mae crefyddau gwahanol yn effeithio ar fywyd pobl sy'n dilyn y crefyddau hyn. Ar ben uchaf yr ysgol mae dysgwyr yn sylweddoli bod Bae Caerdydd yn gameo o amrywiaeth ddiwylliannau'r byd a bod parch a chyfleoedd cyfartal yn hanfodol ar gyfer cydfyw.

79 Mae presenoldeb yn dda iawn. Ar 95.3%yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf roedd yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol a thargedau LICC. Mae prydlondeb yn gyson dda ar ddechrau'r dydd ac i wersi unigol.

80 Mae paratoad ar gyfer y gweithle a bod yn ddinasyddion yn y gymuned yn elfen gref o ddatblygiad y dysgwyr. Maent yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y brifddinas ac maent yn elwa o'r cyfleoedd gânt i drafod gydag arlunwyr a cherddorion sy'n gwneud bywoliaeth yn y gymuned. Maent hefyd yn ymweld ag amrywiol lefydd gwaith megis archfarchnad, labordy a phurfeydd olew yn nociau Caerdydd.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

81 Nid yw'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r Radd 2 roddodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Barn yr arolygwyr yw bod ansawdd yr addysgu mewn nifer o ddosbarthiadau yn gyson dda ac yn aml yn rhagorol, a bod y cwestiwn yn haeddu Gradd 1.

82 Barnwyd ansawdd yr addysgu yn y sesiynau a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
25%	67%	8%	0%	0%

83 Mae'r canrannau hyn yn uwch na'r canrannau cyfartalog ar gyfer Cymru gyfan, fel y'u cyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol PAEM ar gyfer 2007-2008, sef bod ansawdd yr addysgu'n Radd 2 neu'n uwch mewn 83% o wersi, ac yn Radd 1

mewn 16% o wersi. Mae'r ffigyrau hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r canrannau yn yr arolygiad diwethaf.

84 Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfartal da iawn i ddysgwyr o bob cefndir, oed a gallu ym mhob gweithgaredd o fewn cymuned yr ysgol.

85 Hyrwyddir dwyieithrwydd mewn modd rhagorol fel rhan o ethos ac addysg yr ysgol. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol yn B3, ac mae'r athrawon i gyd yn sicrhau cyfleoedd i'r dysgwyr drafod, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith.

86 Defnyddia athrawon ystod eang o adnoddau, gan gynnwys TGCh, yn hynod effeithiol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, er mwyn hyrwyddo'r dysgu o fewn pob gweithgaredd. Mae'r athrawon a'r staff cefnogi i gyd yn fodelau rôl ieithyddol ardderchog. Mae trefnusrwydd yr holl ystafelloedd dosbarth yn rhoi negeseuon pwysig i ddysgwyr am barch a hunan-ddisgyblaeth.

87 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- disgwyliadau uchel iawn o ran safonau gwaith ac ymddygiad, sy'n cymell ac yn herio dysgwyr unigol;
- cynllunio manwl, gyda chyflwyniadau bywiog;
- holi treiddgar a phwrpasol, ac
- annog dysgwyr i ddatrys problemau, i feddwl ac i ddadansoddi drostynt eu hunain.

88 Mae nodweddion da'r addysgu'n cynnwys:

- perthynas waith dda gyda'r dysgwyr, a'r elfen o barch rhwng oedolion a dysgwyr yn creu awyrgylch waith bwrpasol;
- amcanion eglur i wersi'n cael eu rhannu gyda'r dysgwyr, a
- rheolaeth ddosbarth gadarn ac adeiladol.

89 Yn yr ychydig wersi lle gwelwyd mân ddiffygion yn yr addysgu, ceir:

- ansicrwydd o ran athrawon ynglŷn â deilliannau gwersi, a
- chyflymder gwersi yn rhy araf.

90 Gwneir defnydd effeithiol iawn o staff cefnogol sy'n gweithio gyda dysgwyr yn y dosbarth. Defnyddia athrawon amrywiaeth dda o ddulliau dysgu, er enghraifft, gwaith dosbarth cyfan, grŵp, pâr ac unigol, yn ôl yr angen, a chynlluniant yn bwrpasol i ddiwallu anghenion unigol y dysgwyr.

91 Mae dulliau asesu cynnydd a chyflawniad plant y Cyfnod Sylfaen yn dda, gydag asesu gwaelodlin yn arwain at gynllunio ar gyfer unigolion. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth a dderbynnir o'r saith uned feithrin, er bod y wybodaeth yn amrywio'n fawr o ran manylder. Mae athrawon a chymorthyddion yn arsylwi'n fanwl ac yn cadw cofnodion o ddydd-i-ddydd yn y Nodiadau Maes ar gynnydd ac anawsterau unigolion. Hefyd, asesir tasgau ffocws yn effeithiol. Cychwynnwyd ar drefn o gadw llyfr proffil i bob plentyn, i ddangos cynnydd trwy gyfrwng lluniau a darnau o waith.

92 Yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, mae athrawon yn asesu cyflawniadau a chynnydd dysgwyr yn deg, yn gywir ac yn rheolaidd, ac yn cofnodi gwybodaeth berthnasol ar ffurf Nodiadau Maes. Gwnânt ddefnydd

effeithiol o'r asesiadau dydd-i-ddydd, ynghyd â chanlyniadau profion safonol, i osod targedau realistig ar lefel unigolion. Cynhelir cyfarfodydd cymedroli buddiol yn yr ysgol, a hefyd ar lefel clwstwr, i sicrhau cysondeb a ran disgwyliadau a dealltwriaeth o safonau ymysg athrawon.

93 Gosodir targedau heriol ar gyfer y dysgwyr gan ddefnyddio data Ymddiriedolaeth Fischer fel canllaw, mewn trafodaeth ag athrawon blaenorol a phresennol. Ym mhen uchaf cyfnod allweddol 2, trafodir y targedau gyda'r dysgwyr eu hunain. Dadansoddir data'n effeithiol iawn gan edrych ar agweddau megis gwahaniaethau yng nghyflawniad bechgyn a merched, i osod targedau ysgol gyfan er mwyn hyrwyddo'r dysgu ymhellach. Mae'r ysgol yn cwrdd â gofynion statudol o ran cofnodi cyflawniadau dysgwyr.

94 Yn gyffredinol, mae gan ddysgwyr drwy'r ysgol ddealltwriaeth dda o ddiben asesu. Mae'r berthynas bendant rhwng marcio a nod y gweithgareddau yn sicrhau bod llawer o'r dysgwyr yn gwneud y cysylltiad rhyngddynt. Mae athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac, at ei gilydd, yn cynnig sylwadau adeiladol, er nad ydynt yn cynnig arweiniad digonol bob amser ar sut i wella'r gwaith. Ar y cyfan, mae'r adborth a gynigir i ddysgwyr, boed ar lafar neu ar bapur, yn eu hannog i asesu eu gwaith eu hunain, er nad ydynt, hyd yma, yn chwarae rhan weithredol yn y broses gynllunio a gwella eu gwaith.

95 Cydymffurfia adroddiadau blynyddol i rieni yn llawn gyda'r gofynion statudol. Rhoddant ddarlun clir o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni ym mhob maes, ynghyd â sylwadau cyffredinol. Mae rhieni'n hapus o gael cyfle i ymateb yn ysgrifenedig i'r sylwadau. Cynhelir nosweithiau agored yn dymhorol i rieni drafod cynnydd eu plant. Cyflwynir gwybodaeth i'r corff llywodraethol am gyflawniadau'r dysgwyr.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

96 Mae'r tîm arolygu yn cydfynd gyda barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

97 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm yn eang, yn gytbwys a pherthnasol ac yn cwrdd yn llawn gyda gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y CC ac addysg grefyddol. Mae hefyd yn rhoi mynediad llawn i ystod gallu a chefndir eang y dysgwyr, gan gynnwys rhai ag AAA.

98 At ei gilydd, mae ansawdd cynllunio a threfniant y cwricwlwm yn nodwedd arbennig. Mae'r ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi addasu'r cynllunio yn effeithiol i ofynion y cwricwlwm newydd. Gwnaed newidiadau pwrpasol iawn sy'n sicrhau bod y sgiliau sy'n sail i'r ddarpariaeth yng nghyfnod allweddol 2 yn cael eu cyflwyno a'u cadarnhau yn llwyddiannus. Mae hyn yn caniatáu adeiladu systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu unigolion ar draws yr ysgol.

99 Mae mapiau meddwl y dysgwyr ar ddechrau thema yn sefydlu man cychwyn priodol. Dewisir themâu symbylus sy'n eu galluogi i ddefnyddio eu sgiliau trwy 'Gyd Destunau Dysgu' lle clystyrir nifer o bynciau sy'n creu cysylltiadau pwrpasol rhyngddynt, ac sy'n sicrhau cadarnhau sgiliau penodol mewn nifer o gyd-destunau.

100 Mae dosbarthiadau ieuengaf yr ysgol yn cynllunio ar gyfer meysydd y Cyfnod Sylfaen, er mai yn y dosbarth derbyn yn unig mae'r gofynion yn statudol. Mae'r cynllunio yn addas ac yn sicrhau bod plant yn dysgu trwy sefyllfaoedd chwarae, yn gwneud dewisiadau a thrwy weithgareddau ffocws. Oherwydd cyfyngderau'r safle a'r angen i wneud newidiadau, nid yw darpariaeth y Cyfnod Sylfaen eto wedi datblygu'n ddigonol gan nad oes digon o sefyllfaoedd chwarae rôl na dewisiadau yn y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

101 Ar gyfer y medrau allweddol a sylfaenol mae'r cynllunio yn nodwedd ragorol. Mae cysondeb y cynllunio ar eu cyfer ymhob dosbarth yn effeithiol iawn. Nodir hwy ar gyfer pob gwers mewn dull sy'n galluogi rheolwyr i sicrhau bod darpariaeth gytbwys a dilyniannol ar gyfer datblygu sgiliau lythrennedd, rhifedd a TGCh. Caiff sgiliau meddwl a datrys problemau ffocws clir yn y cynllunio.

102 Mae cynllunio ar gyfer gwersi unigol yn rhoi sylw priodol i rannu nod y wers gyda'r dysgwyr ac yn rhoi ffiniau amser ar gyfer cyflawni tasgau a chyfleoedd yn aml i werthuso gyda phartner dysgu ar y diwedd.

103 Ar y cyfan, mae gwaith cartref yn ymestyn yr hyn ddysgir yn yr ysgol ac yn dilyn amserlen briodol. Mae rhieni yn hapus gyda'r ddarpariaeth er yn cydnabod bod mân wahaniaethau yn effeithiolrwydd y ddarpariaeth rhwng dosbarthiadau.

104 Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth gwricwlaidd yw'r ystod o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig. Ceir nifer o glybiau ar ôl ysgol yn cynnwys Clwb Drama, Clwb Eco, Campau'r Ddraig, Clwb Coginio, twrnameintiau a chystadlaethau. Er mai dysgwyr hŷn sy'n elwa fwyaf o'r ddarpariaeth hon mae'r rhai ieuengaf yn cael cyfleoedd tu allan i'r safle, megis taith i ardd leol i ymestyn eu dealltwriaeth o natur ac mae dysgwyr ar ben uchaf cyfnod allweddol 1 wedi cymryd rhan mewn gweithdy cerddorol yng nghastell Caerdydd.

105 Yng nghyfnod allweddol 2 mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu oddi ar y safle yn drawiadol. Caiff dysgwyr blwyddyn (B)6 brofiad preswyl yn Llangrannog a thra yno ymwelant â Chanolfan Dechnoleg Amgen ym Machynlleth a mwynfeydd aur Dolau Cothi. Caiff B4 brofiadau da mewn canolfan addysg ar Fannau Brycheiniog ac yng nghastell Caerdydd wrth gymryd rhan mewn pasiant. Yn ystod yr arolygiad gwelwyd dysgwyr cyfnod allweddol 2 yn ymarfer gyda dau arbenigwr cerdd ar gyfer cyd-berfformio gydag ysgolion eraill cyfagos i ddathlu amryfaliaeth.

106 Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol ac ysbrydol dysgwyr yn gyson dda. Mae ethos a rheolau'r ysgol a'r dosbarth yn gonglfaen i'w datblygiad moesol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cadarnhau agweddau moesol ac yn sicrhau bod dysgwyr yn cael arweiniad gwerthfawr. Mae ymweliadau gan asiantaethau megis theatrau mewn addysg hefyd yn cyflwyno elfennau moesol yn llwyddiannus. Mae cymuned yr ysgol yn anelu'n llwyddiannus at baratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion da ac i sylweddoli bod gan bawb ran i'w chwarae mewn cymdeithas. Mae aelodau Cyngor yr Ysgol yn cael eu hethol i gynrychioli cymdeithas yr ysgol trwy broses ddemocrataidd.

107 Ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr mae darpariaeth at ei gilydd yn dda. Mae profiadau dosbarth yn aml yn rhoi gwefr iddynt. Er bod dathliadau cyson o'u cyflawniadau mewn addoli ar y cyd yn gyfle i ysbrydoli dysgwyr, nid ydynt bob

amser yn achlysuron ysbrydol. Mae addoli ar y cyd yn cydymffurfio gyda gofynion statudol.

108 Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad diwylliannol yn rhagorol. Sefydlir ymwybyddiaeth a balchder ymhob dysgwr o'r diwylliant Cymreig. Mae'r cwricwlwm yn cynnig cyfleoedd i fod yn ymwybodol o chwedlau Cymru, arlunwyr cyfoes Cymreig megis Iwan Bala ac Elfyn Lewis a beirdd a llenorion plant Cymru. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau dwyieithog yn ogystal â dysgu Ffrangeg yn rhan ddyddiol ac integredig o fywyd yr ysgol. Mae Wythnos Ryngwladol yr ysgol yn cymharu diwylliannau eraill ac mae gweithgareddau eraill yn cymharu traddodiad Cymreig fel y Fari Lwyd gyda thraddodiadau'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

109 Mae'r ysgol yn cyfoethogi ei darpariaeth ar gyfer cyfleoedd cyfartal trwy'r sylw a roddir i amrywiol gredoau ac amddifadedd mewn cymdeithas. Caiff dysgwyr gyfle i edrych ar broblemau bywyd cyd-ddinasyddion y byd ac amodau bywyd yn Lesotho a Rwmania. Hefyd cynhelir gweithgareddau trwy law Enfys Gobaith a Bags2school sy'n casglu adnoddau ar gyfer dinasyddion llai ffodus ar draws y byd.

110 Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn effeithiol ac eisoes wedi ennill y Faner Werdd Eco-Sgolion. Rhoddir gofod sylweddol ar waliau'r ysgol i'r Pwyllgor Eco arddangos agweddau o'u gwaith yn annog ailgylchu, arbed ynni a rheoli'r defnydd o ddŵr. Dechreuwyd rhoi ystyriaethau i gael cydnabyddiaeth fel ysgol Fasnach Deg.

111 Rhydd yr ysgol sylw cyson i ddarparu addysg sy'n gysylltiedig â byd gwaith. Bu nifer o athrawon ar brofiad gwaith a daw nifer o ymwelwyr i ddatblygu syniadau dysgwyr ymhellach. Mae darpariaeth ar gyfer busnes a menter yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer rhai gyrfaoedd penodol. Ceir Wythnos Menter a Busnes a chaiff rhieni gyfle i brynu gwaith eu plant ar rai achlysuron. O ganlyniad mae sgiliau entrepreneraidd dysgwyr yn datblygu'n dda.

112 Mae'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fydd yn dylanwadu ar ansawdd bywyd y dysgwyr ac yn cyfrannu at adferiad cymunedol. Mae'r pwyslais ar fwyta a bywyd iach yn sicrhau arferion da ac mae Clwb Rhedeg Rhieni wedi ei sefydlu o ganlyniad i Wythnos Ffitrwydd yn yr ysgol. Mae'r pwyslais ar ail gylchu yn dylanwadu ar fywydau dysgwyr a'u teuluoedd y tu allan i'r ysgol tra bod y sylw i gydweithio, ysgwyddo cyfrifoldeb a defnyddio TGCh yn agweddau fydd yn gymorth i'r dysgwyr ymdopi gyda'u bywydau yn y dyfodol.

113 Gweithia'r ysgol yn rhagorol gyda'i phartneriaid er mwyn cyfoethogi addysg y dysgwyr. Mae Cymdeithas Rhieni'r ysgol yn gefnogol iawn ac yn cyfrannu'n helaeth yn ariannol i ategu at adnoddau ac mae rhieni yn barod i ddefnyddio eu hamser a'u harbenigedd er mwyn helpu a chyfoethogi'r ddarpariaeth. Mae'r berthynas gyda'r gymuned leol ac ehangach hefyd yn rhagorol. Mae hyn yn cynnwys y Fenter Iaith leol, amgueddfeydd, busnesau niferus ac addoldai gwahanol gredoau.

114 Ceir cysylltiadau rhagorol gydag ysgolion Cymraeg y clwstwr sydd yn bwydo'r Ysgol Gyfun Gymraeg. Mae'r cynllun 'Fforwm Dirprwyon' yn fodd i rannu syniadau a gwella darpariaeth. Bu'r Pwyllgor Eco yn ymweld ag ysgol gyfagos i gynnig syniadau a rhannu profiadau. Mae'r ysgol hefyd yn ymuno gydag

ysgolion eraill y clwstwr yn Llangrannog a chyda ysgolion eraill yr ardal i wrando ar gyflwyniadau theatrig ac i berfformio mewn mannau pwysig megis Canolfan y Mileniwm.

115 Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol gyfun yn rhagorol. Ceir gwersi Ffrangeg dan arweiniad athrawes o'r ysgol gyfun sy'n adeiladu ar y ddarpariaeth ar gyfer hyn o fewn yr ysgol ei hunan. Derbyniodd yr ysgol wobr arbennig am ei chysylltiadau pontio. Mae'r ysgol yn derbyn myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gofal plant o'r ddwy ysgol gyfun Gymraeg yn y brifddinas a darpar athrawon o goleg hyfforddi athrawon lleol.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

116 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

117 Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli trefniadau gofal yn hynod o effeithiol. Mae pob aelod o staff yn ofalus a sensitif am y gefnogaeth a gaiff pob dysgwr, ac ystyrir yr ysgol fel ysgol bentrefol mewn dinas, gan fod yno ethos cartrefol a gofalgar. Tystia dysgwyr eu bod yn hapus yn yr ysgol, a'u bod yn teimlo y gallant droi at unrhyw aelod o staff am gymorth.

118 Mae gan yr ysgol awyrgylch gadarn o gydweithio mewn partneriaeth â rhieni, a gweithredir polisi o ddrws agored. Canmola rhieni'r ffaith bod yr ysgol yn ymateb i'w pryderon yn brydlon, ac yn ystyried eu barn. Gwerthfawrogant y gwahoddiad iddynt fynychu cyd-addoli ysgol ar brynhawn Gwener. Ceir cyswllt arbennig o dda rhwng yr ysgol ag asiantaethau cynnal swyddogol er mwyn sicrhau gofal a lles pob dysgwr, yn enwedig y rhai ag anghenion penodol.

119 Trwy weithgareddau'r Cyngor Ysgol caiff dysgwyr gyfle cyson i drafod a mynegi barn ynghylch rhai agweddau o fywyd yr ysgol.

120 Mae trefniadau effeithiol ar gyfer croesawu plant o ysgolion meithrin i'r ysgol. Er bod yr ysgol yn derbyn plant o wahanol sefydliadau meithrin, llwydda'r ysgol yn dda i sicrhau fod y newydd-ddyfodiaid yn ymgartrefu'n gyflym gyda help B6.

121 Caiff medrau personol a chymdeithasol dysgwyr eu hybu'n arbennig o dda mewn sawl ffordd. Ceir ymweliadau gan aelodau o'r gymuned megis plismones leol. Mewn sesiynau amser cylch mae dysgwyr yn cael cyfle i rannu syniadau a theimladau. Mae sgiliau ABCh yn cael lle blaenllaw yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r Criw Clên a'r Cornel Cyfaill yn sicrhau fod pob dysgwr yn hapus yn ystod amseroedd cinio a chwarae. Nodwedd ragorol o'r ddarpariaeth yw'r cyflwyniad am ddiogelwch a gafwyd yn ystod Wythnos Groes Goch, a'r hyfforddiant Cymorth Cyntaf a gafodd dysgwyr B3 a B4.

122 At ei gilydd, mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau datblygiad iachus, diogelwch a lles pob dysgwr yn dda. Cynhelir asesiadau risg priodol ar gyfer gweithgareddau ac ymweliadau. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r corff llywodraethol at ddau fater yn ymwneud â diogelwch.

123 Mae'r ysgol wedi derbyn gwobr cam cyntaf y fenter Ysgol Iach, a rhoddir pwyslais cyson ar hybu ffitrwydd ac iechyd. Cynigir dewis o fwyd iachus i ginio ysgol.

124 Y pennaeth a'r dirprwy yw'r personau dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, gydag aelod o'r corff llywodraethol yn eu cysgodi; mae gan y staff cyfan ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau.

125 Mae systemau monitro rhagorol yn eu lle ar gyfer presenoldeb, prydlondeb, a pherfformiad dysgwyr. Pan fo unigolyn yn absennol bydd yr ysgol yn cysylltu'n syth gyda'r cartref. Anaml ceir achos i gysylltu gyda'r Swyddog Lles. Mae llyfr yn ei le ar gyfer arwyddo os bydd rhywun yn cyrraedd yn hwyr.

126 Cynllunnir a rheolir y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol gan y ddwy athrawes sy'n cydlynu'r maes. Cedwir cofnodion manwl o gynnydd y dysgwyr ag AAA, a chydweithir yn agos ag asiantaethau allanol. Caiff dysgwyr ag AAA gynhaliaeth dda gan yr athrawes arbenigol, athrawon dosbarth a chymorthyddion. Caiff anghenion eu hadnabod yn gynnar, a gweithredir yn bwrpasol. Mae cynlluniau addysg unigol yn rhoi manylion targedau priodol, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Cefnogir dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol gyda llythrennedd neu rifedd yn effeithiol gyda rhaglenni megis Sioni Siarad, Dysgu Dwys a Dyfal Donc. Mae dysgwyr ag AAA yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol, a chânt fynediad llawn i'r cwricwlwm.

127 Mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer dysgwyr mae eu hymddygiad yn amharu ar eu cynnydd. Rhydd yr ysgol bwyslais da ar hunan-ddisgyblaeth, a dilynir Polisi Disgyblaeth Disyflyd yn gyson fel bod cysondeb yn ymagweddau'r dysgwyr a'r staff fel ei gilydd. Gwobrwyir a rhoddir clôd i ddysgwyr am ymddygiad da.

128 Er bod yr ysgol yn honni nad oes ymddygiad gormesol, medda'r ysgol ar nifer o bolisïau a mesurau effeithiol iawn i ddileu ymddygiad gormesol, megis bwlio. Trafodir ymagweddau gan y dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft, ar ôl cyflwyniadau gan gwmnïau theatr, neu yn dilyn cyd-addoli.

129 Mae nodweddion rhagorol yn ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal. Mae'r dysgwyr yn ymwybodol iawn o amrywiaethau sy'n bodoli yn y gymuned a thu hwnt. Hyrwyddir cydraddoldeb rhyw yn arbennig o dda ac ymatebir yn briodol i stereoteipio yn effeithiol trwy gyfrwng pob gweithgaredd. Dethlir agweddau positif tuag at gydraddoldeb hiliol, ac yn y cyfarfod cyn-arolygiad roedd rhieni'n cytuno'n gryf bod yr ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd ac agweddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu plant.

130 Mae'r ysgol yn croesawu dysgwyr sydd ag anableddau, ac mae cynllun gweithredu mynediad i ddysgwyr anabl ar waith yn yr ysgol yn unol â gofynion statudol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

131 Nid yw'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r Radd 2 roddodd yr ysgol yn yr adroddiad hunan arfarnu gan iddynt deimlo bod nodweddion rhagorol i arweinyddiaeth yr ysgol oedd yn haeddu Gradd 1.

132 Er i'r tîm ddyfarnu Gradd 2 i gwestiwn allweddol 7, nid oeddent yn credu bod hyn yn adlewyrchu unrhyw ddiffygion yn arweinyddiaeth newydd yr ysgol. Er i'r ysgol sicrhau datblygiadau pwrpasol er mwyn darparu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen o fewn yr adeilad eleni, tybient fod y datblygiadau yn y dosbarth tu allan yn dal yn annigonol a bod cyfyngderau dybryd y safle yn amharu ar y ddarpariaeth a'r datblygiadau. Mae'r datblygiadau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r broses hunan arfarnu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bositif dros ben.

133 Mae gan yr ysgol nodau a gwerthoedd clir a systemau ac ethos sy'n sicrhau bod y corff llywodraethol, rhieni, dysgwyr a staff yn gweithio ar y cyd i gyflawni'r amcanion a gwireddu datganiad o genhadaeth yr ysgol sef 'Ymdrech a Lwydda'. Mae polisïau ysgol effeithiol yn rhoi sylfaen gadarn i fywyd pob dydd.

134 Caiff yr ysgol ei harwain yn dda iawn ac mae strwythurau effeithiol iawn yn bodoli ar gyfer sicrhau rheolaeth effeithiol. Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn gryfder amlwg ac mae'n cynnig arweiniad egniol, ysbrydoledig a chall. Mae ei weledigaeth uchelgeisiol i'r ysgol yn darparu cyfeiriad strategol eglur iawn oddi mewn i ddiwylliant agored cynhaliol. Mae'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnig cyfleodd eang i bob dysgwr gyrraedd ei botensial. O dan ei arweiniad, meithrinir amgylchedd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch.

135 Caiff y pennaeth ei gefnogi'n dda iawn gan ddirprwy sydd hefyd yn newydd i'w swydd. Mae'n fodel rôl dda iawn fel athrawes ddosbarth.

136 Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn weithgar ac ymroddgar iawn ac maent wedi eu dewis yn ofalus i sicrhau bod holl agweddau ac adrannau'r ysgol yn cael chwarae teg.

137 Gwna'r arweinyddion pwnc, sy'n cyflawni eu cyfrifoldebau yn dda iawn, gyfraniadau pwysig a gwerthfawr i reolaeth strategol yr ysgol ac maent yn rhoi help a chefnogaeth werthfawr i athrawon eraill. Mae llinellau cyswllt rhwng athrawon yn glir ac yn cael eu hybu gan y gweithdrefnau cadarn. Rheolir trefniadau o ddydd i ddydd yn effeithiol ac effeithlon.

138 Mae cyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi. Mae'r ymdeimlad o gydweithio a chynnal ethos positif ysgol-gyfan yn gryf. Caiff yr ethos positif effaith sylweddol iawn ar y safonau da iawn a gyflawnir.

139 Mae'r ysgol yn gweithredu'n unol â'i pholisi rheoli perfformiad ac mae'r broses wedi'i sefydlu'n dda. Mae'n datblygu'n briodol ac yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae'r broses yn rhoi sylfaen dda ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac ar yr un pryd yn cyfrannu at flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella.

140 Mae'r athrawon yn mynychu ystod dda o gyrsiau priodol. O dan arweiniad y pennaeth, mae datblygiad proffesiynol yr holl oedolion sy'n gweithio yn yr ysgol yn dda iawn. Yn ogystal, ceir goruchwyliaeth ofalus a sensitif i'r ANG ac i ddarpar athrawon ar brofiad gwaith a myfyrwyr gofal plant.

141 Mae'r cysylltiad rhwng y broses hunan arfarnu a'r CDY yn un cadarn. Mae'r CDY yn offeryn effeithiol i ddatblygu'r ysgol ac yn cynnig arweiniad manwl ynglŷn â'r dyfodol. Mae'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda iawn yn ei chynllunio ar gyfer y dyfodol.

142 Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn rhagweithiol iawn. Roedd nifer yn lywodraethwyr yn yr arolygiad diwethaf. Mae ganddynt hwy a'r aelodau newydd arbenigeddau defnyddiol i'w cynnig i'r ysgol.

143 Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd ac maent yn cyflawni'r holl ofynion cyfreithiol. Cânt eu hysbysu'n dda iawn gan y pennaeth am fywyd a gwaith yr ysgol a'u cynnwys ym mhob penderfyniad pwysig ynglyn â chyfeiriad strategol yr ysgol. Mae'r system o is-bwyllgorau sy'n bodoli yn effeithiol.

144 Mae'r llywodraethwyr sydd wedi eu cysylltu gyda phynciau ac agweddau yn cwrdd â'r staff yn gyson ac maent yn rhannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau gyda'r corff llywodraethol llawn. Mae hwn yn ddull effeithiol o hysbysu'r llywodraethwyr o faterion a datblygiadau.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

145 Mae'r tîm arolygu yn cydfynd gyda barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

146 Lluniodd yr ysgol gynllun gweithredu addas yn dilyn yr arolygiad diwethaf oedd yn ymateb i'r materion allweddol. Rhoddwyd ffocws amlwg i'r mwyafrif o'r diffygion a nodwyd. Yn y cynllun rhoddwyd cyfrifoldebau pendant i unigolion, pwyslais ar sicrhau adnoddau pwrpasol a hyfforddiant addas, yn ogystal â ffiniau amser i gyflawni'r tasgau angenrheidiol fyddai'n arwain at welliant.

147 Ar y cyfan, bu'r cynnydd ers yr arolygiad diwethaf yn dda. Er na arolygwyd safonau dylunio technoleg y tro hwn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod safonau yn y pwnc bellach wedi gwella. Rhoddwyd sylw penodol ac effeithiol hefyd i wella'r medrau allweddol trwy gynllunio yn fwy trylwyr ar eu cyfer. Er bod gweithdrefnau cadarn yn eu lle bellach i fonitro'r safonau a'r ddarpariaeth gwricwlaidd, er mwyn cryfhau proses hunan arfarnu'r ysgol, ni fu digon o bwyslais ar y diffyg hwn yn union wedi'r adroddiad diwethaf.

148 Lluniwyd adroddiad hunan arfarnu manwl yn dilyn fframwaith Estyn ar gyfer yr arolygiad cyfredol oedd yn amlygu cryfderau, meysydd datblygu a'r ffordd ymlaen. Roedd yr arolygwyr yn anghytuno ar farn yr ysgol mewn pedwar cwestiwn. Mewn tri o'r rhain rhoddwyd gradd uwch gan fod yr ysgol wedi tanbrisio ei pherfformiad ond mewn un rhoddodd radd is gan nad oedd digon o nodweddion rhagorol i ddyfarnu Gradd 1.

149 Mae'r ysgol serch hynny yn adnabod ei hun yn dda gan fod yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad eisoes yn flaenoriaeth yn y CDY. Nid yw'r broses na'r gweithdrefnau hunan arfarnu fodd bynnag, wedi gwreiddio'n gadarn eto.

150 Mae dysgwyr, rhieni, staff a'r corff llywodraethol bellach yn rhan o'r broses hunan arfarnu. Llwyddodd hyn i sicrhau ymdeimlad o berchnogaeth a rhannu gweledigaeth gytûn gyda'r holl randdeiliaid.

151 Dadansoddwyd mewn manylder yr holiaduron a rannwyd rhwng rhieni a staff yn ystod blwyddyn gyntaf y pennaeth yn ei swydd. Bu'r broses hon yn sylfaen i'r pennaeth a'r dirprwy newydd rannu blaenoriaethau gyda phawb sydd yn rhan o fywyd a gwaith yr ysgol. Ymhlith y wybodaeth, cafwyd barn rhieni am safonau, ac ymdeimlad y staff am effeithiolrwydd hyfforddiant mewn swydd (HMS).

152 Mae'r rheolwyr a'r athrawon sydd â chyfrifoldebau pynciol ac agweddau yn monitro fel rhan o'r broses hunan arfarnu. Yn eu hadroddiadau clir dangosant ffynhonnell y dystiolaeth, nodant flaenoriaethau, cryfderau a diffygion gan lunio cynllun gweithredu sy'n bwydo'r CDY.

153 Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth fanwl am safonau a darpariaeth yr ysgol ac maent yn ymweld â'r ysgol yn gyson. Maent yn ymwybodol iawn o bolisïau'r ysgol ac yn deall pwysigrwydd y broses hunan arfarnu er mwyn symud yr ysgol yn ei blaen.

154 Mae'r CDY yn cynnig blaenoriaethau, targedau a chynlluniau strategol pwrpasol ar gyfer y flwyddyn gyfredol a throsolwg pellach hir dymor yn rhagfynegi effaith y strategaethau a sut y tybir y dylid symud ymlaen. Gwerthusir y CDY yn flynyddol mewn trafodaethau gyda'r corff llywodraethol.

155 Mae dadansoddiad yr ysgol o ddata meintiol yn gryfder amlwg. Gwneir hyn mewn cysylltiad gydag ymgynghorydd cyswllt yr ALl a rhaeadrir gwybodaeth i'r athrawon.

156 Defnyddir ystod o brofion safonol i osod targedau heriol. O gymharu perfformiadau'r ysgol o flwyddyn i flwyddyn, mae'r ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth dda o sut y dylid gweithredu; er enghraifft gan nad yw'r ysgol wedi perfformio gystal yn 2009 â'r blynyddoedd blaenorol ar lefelau uwch asesiadau'r CC ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, mae strategaethau yn eu lle i sicrhau gwelliant. Gwneir adolygiad o gynnydd dysgwyr gan reolwyr yn dymhorol. Defnyddir data rhagfynegol yn effeithiol iawn i nodi beth fydd cyraeddiadau dysgwyr wrth iddynt fynd i fyny'r ysgol.

157 Gan fod y dysgwyr yn ymwybodol iawn o'u targedau a sut y gallant wella mae'r diwylliant hunan arfarnu yn eu cynnwys hwythau. Cânt gyfle i lenwi holiaduron am agweddau o fywyd ysgol a gwerthusant eu tasgau gyda'u partneriaid dysgu. Mae Cyngor yr Ysgol yn cymryd rhan gynyddol yn y broses hunan arfarnu ac yn cael cyfleoedd cyson i leisio barn.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

158 Nid yw'r tîm arolygu yn cydfynd gyda'r Radd 1 roddodd yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Rhoddwyd Gradd 2 i'r cwestiwn hwn am nad oedd y tîm yn credu bod digon o nodweddion rhagorol i ddyfarnu Gradd 1.Teimlent nad oedd hyn yn tynnu fodd bynnag oddi ar ragoriaeth arweinyddiaeth yr ysgol gan bod cymaint wedi ei gyflawni o ran yr adeilad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

159 Er bod rhifau'r dosbarthiadau'n fawr, mae gan yr ysgol nifer ddigonol o athrawon ar gyfer y dysgwyr sydd ar y cofrestri. Mae eu cymwysterau yn addas ar gyfer eu dyletswyddau.

160 Mae'r ysgol yn adnabod anghenion datblygu athrawon unigol ac yn eu diwallu trwy raglen HMS a ddarperir, yn arferol, gan y gwasanaeth ymgynghorol lleol. Er

mai iaith yw arbenigedd hyfforddiant cychwynnol mwyafrif yr athrawon, maent wedi datblygu arbenigedd mewn pynciau a meysydd eraill wrth ddilyn hyfforddiant gan asiantaethau gan gynnwys cyfleoedd y tu allan i'r awdurdod. Mae'r ysgol yn annog athrawon yn barhaus i geisio am grantiau oddi wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC). Mae gwybodaeth bynciol yr athrawon yn gyson dda.

161 Cyflogir nifer dda o weinyddesau a chymorthyddion dysgu. Mae eu cyfraniad yn hynod werthfawr o fewn y dosbarthiadau ac yn yr ysgol yn gyffredinol. Mae gan yr ysgol strategaethau yn eu lle i sicrhau eu bod hwy yn datblygu yn broffesiynol hefyd.

162 Llwydda'r ysgol i atgyfnerthu ei darpariaeth gwricwlaidd trwy gyfnewid athrawon ar adegau, er mwyn manteisio ar arbenigeddau unigolion, a thrwy gyflogi athrawes ran-amser, er enghraifft i ddechrau'r rhaglen ar gyfer addysgu Ffrangeg yn B4. Mae gwasanaeth athrawon peripatetig cerddoriaeth yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn ogystal ag athrawon a gyflogir gan yr ysgol ar gyfer prosiectau arbennig.

163 Mae'r ysgol yn gweithredu'n briodol wrth ymwneud â gofynion lleihau baich athrawon trwy ryddhau athrawon am gyfnodau digyswllt. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithlon o'r amser hwn. Mae'r trefniadau ar gyfer cyflenwi yn y dosbarthiadau yn y cyfnodau hyn yn dda.

164 Mae staff gweinyddol yr ysgol, y staff arlwyo, y glanhawyr, y goruchwylwyr canol dydd a'r gofalwr yn ymgymryd â'u gwaith beunyddiol ac ystod o gyfrifoldebau yn effeithiol ac effeithlon. Ceir safon uchel iawn o lendid o fewn yr ysgol ac mae'r ardaloedd allanol yn rhydd o sbwriel.

165 Er bod yr adeilad gwreiddiol yn hen mae mewn cyflwr da ar y cyfan. Dros y blynyddoedd ychwanegwyd bloc deulawr a ddefnyddir yn effeithiol ar gyfer dosbarthiadau cyfnod allweddol 2. Mae'r dosbarthiadau hyn yn ddigonol o ran maint. Defnyddir ardal ddeniadol rhwng y ddau adeilad ar gyfer nifer o weithgareddau gan gynnwys garddio. Gwneir defnydd amlbwrpas effeithiol o'r neuadd ac o gilfachau er mwyn gweithgareddau megis gwersi offerynnol.

166 Ailfodelwyd yr hen adeilad yn ddiweddar ar gyfer datblygu'r Cyfnod Sylfaen. Gan mai ond ychydig ddyddiau cyn yr arolygiad y bu'n bosibl defnyddio'r rhan newydd, nid yw hyd yma wedi dylanwadu ar y ddarpariaeth yn ddigonol.

167 Mae'r arddangosfeydd ar draws yr ysgol yn lliwgar ac yn rhoi amlygrwydd i weithgareddau amrywiol yr ysgol brysur hon. Maent yn sicrhau ymdeimlad o berthyn i'r holl ddysgwyr.

168 Mae iard yr ysgol yn cynnig lle chwarae ar wahân ar gyfer y disgyblion hŷn a'r disgyblion ieuengaf. Nid yw'r ardal ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd. At ei gilydd mae'n gyfyng ac yn creu anawsterau i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad corfforol plant. Mae'r ystafelloedd dosbarth ar gyfer y dysgwyr ieuengaf yn fach ac yn gwneud ymestyn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant chwech a saith oed yn anodd. Nid oes gan yr ysgol ardal werdd na chae chwarae.

169 Ar y cyfan, mae digon o adnoddau o ansawdd da ar gyfer y dysgwyr a chânt rwydd hynt i'w defnyddio yn bwrpasol. Mae adnoddau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cael eu datblygu'n effeithiol. Mae digon o adnoddau rhagorol ym maes TGCh

gan gynnwys bwrdd gwyn rhyngweithiol ymhob ystafell, ac nid yw colli swît gyfrifiaduron er mwyn creu gofod i'r Cyfnod Sylfaen wedi amharu ar safonau yn y pwnc.

170 Mae holl adnoddau'r ysgol o ansawdd da ac maent yn cael eu parchu gan athrawon a dysgwyr. Mae'r cydlynwyr cwricwlwm, y pennaeth a'r corff llywodraethol yn ymdrin ag adnoddau yn effeithlon. Maent yn ddarbodus wrth wario ac yn sicrhau bod cyllideb yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i dargedau'r CDY.

171 Mae'r pennaeth yn rhagweithiol wrth chwilio am ffynonellau i gyfrannu at gyllideb yr ysgol megis llogi'r ysgol er mwyn i sianel deledu ffilmio a chael grantiau gan fanciau ac asiantaethau. Canmolwyd systemau'r ysgol yn yr Arolygiad Cyllidol ar ddechrau'r flwyddyn hon. Defnyddir yr adnoddau sydd ar gael yn yr ardal leol yn ogystal er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau posib.

172 Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Dymuna'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr ddiolch i'r tîm arolygu am eu proffesiynoldeb, eu cwrteisi a'u tegwch yn ystod eu hymweliad ag Ysgol Pencae.

Ymfalchiwn yn ein safonau ardderchog o ddysgu ac addysgu a dathlwn fod yr adroddiad yn cydnabod fod dysgwyr yr ysgol yn derbyn profiadau addysgol symbylus a chyfoethog sy'n meithrin a datblygu eu hyder a'u hyfrdedd yn y broses dysgu.

Gwerthfawrogwn argymhellion ar gyfer datblygu'r ysgol ymhellach ac hyderwn y llwyddwn i gydweithio fel tîm er mwyn cyflawni'n y nod o ddarparu addysg o'r ansawdd orau i ddysgwyr yr ysgol.

Cyflawnwyd yr adroddiad cadarnhaol hwn trwy ymrwymiad a brwdfrydedd y dysgwyr, pob aelod o'r staff ynghyd â chefnogaeth gyson y corff llywodraethol, y rhieni a holl aelodau cymuned Ysgol Pencae.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Pencae
Math o ysgol	Cyfnod Sylfaen a Chynradd
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Gillian Highfields Llandaf Caerdydd
Cod post	CF5 2QA
Rhif ffôn	02920563851

Pennaeth	Richard Thomas
Dyddiad penodi	Medi 2008
Cadeirydd y llywodraethwyr	Elizabeth A Jones
Arolygydd cofrestredig	Eleri Betts
Dyddiadau'r arolygiad	Hydref 5ed a 6ed 2009

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	-	30	30	28	30	31	29	29	207

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	8	1	8.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	24:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	Dim yn berthnasol
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	Dim yn berthnasol
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	29.5
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Hydref 2008	-	96.5%	96.1%
Gwanwyn2009	-	94.9%	94.3%
Haf 2009	-	96%	95.4%

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	3.4%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

YSGOL PENCAE **Rhif yr AALl/Ysgol:681/2177**
Caerdydd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi

Cyfnod Allweddol 1

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 2+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	.	81	78	.	88	88	.	84	83
Cymraeg	100	90	87	100	93	93	100	92	90
Mathemateg	100	87	85	100	89	89	100	88	87
Gwyddoniaeth	100	90	88	100	92	92	100	91	90
DPC	100	80	77	100	85	85	100	82	81



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		86		92		100	
Cymraeg		85		***100***		100	
Mathemateg		88		96		***100***	
Gwyddoniaeth		92		***100***		100	
DPC		82		90		***100***	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 2 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 25/09/2009

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

YSGOL PENCAE **Rhif yr AALl/Ysgol:681/2177**
Caerdydd

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi

Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	100	80	76	100	87	87	100	83	81
Cymraeg	100	83	73	94	91	86	96	87	80
Mathemateg	100	83	80	94	85	85	96	84	82
Gwyddoniaeth	100	86	84	100	90	89	100	88	86
DPC	100	76	73	94	81	82	96	79	77



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

Llai na 8% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		84		90		***100***	
Cymraeg		75		88	***96***	100	
Mathemateg		84		92	***96***	100	
Gwyddoniaeth		89		97		***100***	
DPC		80		88		***96***	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 25/09/2009

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd pedwar arolygydd cyfwerth â saith o ddiwrnodau arolygu yn yr ysgol. Hefyd roedd asesydd cymheiriaid yn rhan o'r tîm. Bu cyfarfod tîm cyn yr arolygiad oedd yn cynnwys enwebai'r ysgol.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- tri deg chwe gwers neu rannau o wersi;
- sesiynau cofrestru ac addoli ar y cyd;

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, athrawon a staff yr ysgol;
- grwpiau o ddisgyblion yn cynrychioli pob grŵp blwyddyn;
- chynrychiolwyr asiantaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- cant a thri ymateb i'r holiadur i rieni gyda 99% ohonynt yn gefnogol;
- dogfennau a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- amrediad eang o waith blaenorol a phresennol disgyblion; a
- samplau o adroddiadau disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd y tîm arolygu gyfarfodydd gyda'r staff a'r corff llywodraethol.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Eleri Betts Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau Allweddol 1/3/6
Deris Williams Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at Gwestiynau Allweddol 1/3/4/7
Zohrah Evans Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 2/4
Enir Morgan Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 5/7
Catherine Davies Asesydd Cymheiriad	Mynychu cyfarfodydd, arsylwi dosbarthiadau, cyfrannu at drafodaethau
Richard Thomas	Enwebai

Cydnabyddiaeth
Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i ddisgyblion, pennaeth, staff, rhieni a llywodraethwyr yr ysgol am eu cwrteisi a'u cydweithrediad cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Contractwr:
EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic, Ffordd Britannic, Llandarsi, Castell Nedd SA10 6JQ